



CROESO'N ÔL

WELCOME BACK

IONAWR / JANUARY 2022



BLWYDDYN NEWYDD DDA HAPPY NEW YEAR





Cyhoeddiadau Pwysig

Important announcements

Fe fydd yr ysgol yn ail agor yn llawn i ddisgyblion ar
Ddydd Llun 10/1/2022.

The school will fully re-open to pupils on
Monday 10/1/2022.

Dyddiadau Pwysig /Important Dates

Noson Rieni Blwyddyn 7 Rhithiol Year 7 Virtual Parents Evening	11/1/2022
Noson Agored Rhithiol y Chweched Dosbarth Sixth Form Virtual Open Evening	25/1/2022
Noson Dewisiadau Blwyddyn 9 Year 9 Options Evening	8/2/2022
Diwedd tymor End of Term	18/2/2022



Profion Llif Unffordd a Hunan Ynysu

Lateral Flow Tests & Self-Isolation

Mae profion yn wirfoddol, (ac nid yn orfodol) ond anogir y rhai sy'n gymwys i gael profion i gymryd rhan i leihau ymhellach y risg o drosglwyddo'r firws.

Argymhellir y dylai pob dysgwr ysgol uwchradd brofi dair gwaith yr wythnos cyn mynd i'r ysgol gan ddefnyddio LFDs (ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) a chofnodi eu canlyniadau ar-lein [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/report-a-covid-19-rapid-lateral-flow-test-result)

Ar 05/01/22, dywedodd datganiad ysgrifenedig na fydd angen i'r rhai sydd heb unrhyw symptomau ond sydd â phrawf llif unffordd positif, gael prawf PCR dilynol oni bai eu bod yn cael eu cynghori i wneud hynny fel arall gan TTP. Dylent ddilyn canllawiau hunanynysu [Hunanynysu | LLYW.CYMRU](https://www.gov.uk/human-isolation).

Fodd bynnag, os oes gan unrhyw ddysgwr symptomau COVID-19, dylent hunan-ynysu ac archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl [Get a free PCR test to check if you have coronavirus \(COVID-19\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/get-a-free-pcr-test-to-check-if-you-have-coronavirus-covid-19)

Testing is voluntary, (and not mandatory) but those who are eligible for tests are strongly encouraged to participate to further reduce the risk of asymptomatic transmission.

It's recommended that all secondary school learners should test three times a week before entering school using LFDs (on Monday, Wednesday and Friday) and record their results online [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/report-a-covid-19-rapid-lateral-flow-test-result).

On 05/01/22 a written statement stated that those showing no symptoms who have a positive lateral flow test, will no longer be advised to have a follow-up PCR test unless advised to do so otherwise by TTP. They should follow self-isolation guidance [Self-isolation | GOV.WALES](https://www.gov.uk/human-isolation)

If however any learner has symptoms of COVID-19, they should self-isolate and book a PCR test as soon as possible [Get a free PCR test to check if you have coronavirus \(COVID-19\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/get-a-free-pcr-test-to-check-if-you-have-coronavirus-covid-19)



Cynnydd mewn achosion Covid19

Increase in Covid cases19

Mae trefniadau hunan-ynysu wedi newid. Erbyn hyn gofynnir i blant rhwng 5 a 17 oed ddefnyddio profion llif ochrol (LFTs) bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt ag achos COVID-19 positif. Gelwir hyn yn 'Brofi Cyswllt Dyddiol'. Noder os gwelwch yn dda ei bod yn annhebygol y bydd dosbarth/grŵp cyfan yn cael eu hys-tyried yn gysylltiadau agos. **Byddwn mewn cysylltiad os bydd angen i'ch plentyn wneud hyn.**

Self-isolation arrangements have changed. Children between the ages of 5 and 17 are now required to use lateral flow tests (LFTs) daily for 7 days if identified as being associated with a positive COVID-19 case. This is called 'Daily Contact Testing'. Please note that a whole class / group is unlikely to be considered to be close contacts. **We will contact you if your child is required to do this.**

Cynlluniau ar gyfer

symud i ddysgu o bell

- Mewn achos o ddiffyg staff o ganlyniad i achosion o covid-19, hunan ynysu neu salwch byddwn yn symud grwpiau blwyddyn penodol i ddysgu o bell.
- Byddwn yn blaenoriaethu cadw grwpiau blwyddyn arholiadau (Blwyddyn 11 / 12 / 13) yn yr Ysgol gyda dysgu wyneb yn wyneb.
- Bydd unrhyw cyfnodau o ddysgu o bell gael eu cadw mor fyr â phosib ac ond yn cael ei roi ar waith mewn ymateb i sefyllfaoedd penodol.
- Yn anorfod bydd unrhyw symud i ddysgu o bell i flwyddyn penodol yn cael ei gyfathrebu gyda chi mor fuan ag sydd bosib er mwyn gwneud unrhyw drefniadau hanfodol.

Plans for moving

to distance learning

- In the event of staff shortage due to covid-19, self isolation or illness we will move specific year groups to distance learning.
- We will prioritise keeping examination year groups (Year 11/12/13) on school site with face to face learning.
- Any periods of distance learning will be kept to a minimum and will only be implemented in response to specific situations.
- Any move to distance learning for a particular year will inevitably be communicated to you as soon as possible in order to make any essential arrangements.



Arholiadau Allanol a Mewnol External and internal Exams

Mi fydd arholiadau allanol (Blwyddyn 11—13) yn mynd ymlaen yn ystod mis Ionawr yn Neuadd yr Ysgol. Byddwn hefyd yn parhau gyda Arholiadau Mewnol BI 12/13.

External examinations (Year 11—13) will take place during January in the School Hall. We will also continue with the Year 12/13 Internal Examinations.

Beth os ydw i'n cael fy adnabod fel cyswllt ond bod gen i arholiad?

Os ydych chi'n 5-17 oed neu'n 18 oed neu hŷn ac wedi'ch brechu'n llawn, a'ch bod chi wedi cael ei adnabod fel cyswllt i rywun sydd wedi profi'n bositif am coronafeirws, dylech ddefnyddio LFTs am 7 diwrnod. Os yw canlyniad eich prawf llif ochrol yn bositif dylech hunan-ynysu fel y nodir yn y canllawiau cenedlaethol. Os ydych chi'n datblygu symptomau dylech archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Yn y naill achos neu'r llall, os credwch y gallai hyn effeithio ar eich gallu i sefyll eich arholiad, cysylltwch â'ch ysgol neu goleg i wneud y trefniadau angenrheidiol.

What if I am identified as a contact but have an exam?

If you are 5-17 years old or 18 or over and fully vaccinated, and you have been identified as a link to someone who has tested positive for coronavirus, you should use LFTs for 7 days. If the result of your lateral flow test is positive you should self-isolate as set out in the national guidelines. If you are developing symptoms you should order a PCR test as soon as possible. In either case, if you think this may affect your ability to sit your exam, contact your school or college to make the necessary arrangements.

A oes angen i mi wisgo gorchudd wyneb yn ystod fy arholiad?

O ystyried y trefniadau penodol iawn sydd ar waith ar gyfer arholiadau, h.y. mae desgiau yn wynebu ymlaen ac mae siarad wedi ei gyfyngu, dylid rhoi opsiwn i ddysgwyr dynnu eu gorchudd wyneb, unwaith y byddant yn eistedd, trwy gydol eu harholiad. Os yw'n bosib byddwn yn cynyddu'r bylchau rhwng desgiau o'r bylchau lleiaf o 1.25m. Byddwn hefyd ystyried atgyfnerthu lliniaru fel defnyddio glanweithydd dwylo wrth fynd i mewn i'r ystafell arholiadau, sicrhau bod yr ystafell wedi'i hawyru'n dda a chynghori dysgwyr i ddefnyddio prawf llif ochrol deirgwaith yr wythnos. Ar ddiwedd yr arholiad dylid atgoffa dysgwyr i wisgo gorchudd eu hwyneb cyn gadael yr ystafell.

Do I need to wear a face cover during my exam?

Given the very specific arrangements in place for examinations, ie desks are facing forward and talking is restricted, learners should be given the option of removing their face cover, once seated, throughout their examination. Where possible we will increase the desk spaces from the smallest gaps by 1.25m. We will also consider reinforcing mitigation such as using a hand sanitizer when entering the examination room, ensuring that the room is well ventilated and advising learners to use a lateral flow test three times a week. At the end of the examination learners should be reminded to wear their face cover before leaving the room.



Gorchuddion Wyneb Face Coverings

Hoffwn eich atgoffa y dylai gorchuddion wyneb gael eu gwisgo gan ddysgwyr ym mhob ardal gymunedol ac **yn yr ystafell ddosbarth** lle nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol.

Yr unig eithriad yw amser bwyd a phan tu allan. Hoffwn eich atgoffa hefyd y bydd angen gorchuddion gwyneb gan ddysgwyr sy'n defnyddio cludiant ysgol.

Byddwn yn annog pob dysgwr ac aelod o staff i ddefnyddio gorchuddion wyneb tair haen o safon uchel y gellir eu hailgylchu/eu defnyddio fwy nag unwaith, ac i'w defnyddio'n gywir drwy orchuddio'r geg a'r trwyn, gan sicrhau hylendid dwylo cyn eu gwisgo a'u tynnu. Nid yw gwisgo a thynnu gorchuddion wyneb yn aml yn cael ei argymhell oherwydd mae hyn yn gallu peri risg o halogi'r dwylo a'r wyneb; os yw'r dysgwyr y tu allan am gyfnod byr, efallai y bydd yn haws iddynt beidio â thynnu eu gorchuddion wyneb.

Mae rhai amgylchiadau lle nad fydd rhai dysgwr ac aelod o staff yn gallu gwisgo gorchudd wyneb. Byddwn yn ystyriol ac yn barchus o amgylchiadau o'r fath, gan gofio efallai fod rhai pobl yn llai abl i wisgo gorchudd wyneb ac efallai nad yw pobl eraill yn gallu gweld y rhesymau dros hyn. Rhowch wybod i'r ysgol a yw'ch plentyn wedi'i eithrio rhag gwisgo gorchudd wyneb.

Nid yw gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol.

I would like to take this opportunity to remind you that face coverings should be worn by learners in all communal areas and **in the classroom** where it's not possible to socially distance.

The exception is at mealtimes and when outside. I would also like to remind you that face coverings should be worn by learners using dedicated school transport.

We would encourage all learners and staff members to use recyclable high quality three layered multi-use face coverings and use them correctly, covering the mouth and nose, ensuring hand hygiene before putting on and following removal. Frequent putting on and taking off of face coverings is not recommended as this can risk contaminating hands and face; if learners are outside for a short period it may be easier to keep face coverings on.

There are some circumstances where some learners and staff may not be able to wear a face covering. We will be mindful and respectful of such circumstances, noting that some people may be less able to wear face coverings and the reasons for this may not be visible to others. Please let the school know if your child is exempt from wearing a facial covering.

Wearing of face coverings isn't mandatory.





Gwisg Ysgol / School Uniform

Dylai disgyblion wisgo gwisg ysgol llawn ar gyfer pob diwrnod ysgol pan yn dod ar y safle o'r 10.1.2022 ymlaen.

Pupils should wear full school uniform every school day when they return from 10.1.2022.

Broadwaith

 Uned 1-7 Yr Hen Stablau, Pentrefoelas, Betws y Coed, Conwy, LL24 0HT

 01690 770393
01690 770693

Boppers Boutique - 01492 534421


4-6 Abergele Rd, Colwyn Bay LL29 7NN

Ar y Gweill - 07875634151

8 Heol yr Orsaf, Llanrwst

School Talk - 01492 876995



159 Mostyn St. Llandudno, LL30 2PE.





Canllawiau Gwisg Ysgol Blwyddyn 7-11

School Uniform Guidelines for Years 7-11

Eitem / Item	Disgrifiad/Manylion	Llun / Image	Description/Details
Crys Ysgol Gwyn White School Shirt	Disgwylir i bob disgybl wisgo crys gwyn ffurfiol gyda botymau at y gwddw a choler ffurfiol i'r ysgol. Caniateir crys llewys byr neu hir.	 	Every pupil is expected to wear a formal white collared shirt with buttons to the collar. These can be long or short sleeved.
Tei Ysgol School Tie	Mae'r tei ysgol yn un Burgundy gyda streipiau Aur. Gellir archebu'r tei gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol. Disgwylir i'r tei gael ei wisgo yn briodol ar bob cyfrif.		The school tie is Burgundy with Gold stripes. It can be purchased from any of our 4 suppliers or through the school. The tie should be correctly worn at all times.
Siwmpwr Ysgol School Jumper	Siwmpwr Burgundy gwddw 'V' gyda logo'r ysgol ar y blaen. Gall y siwmpwr gael ei archebu gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol.		The school jumper is a Burgundy 'V' neck jumper with the school logo in Gold on the chest. Again it can be purchased through any of our 4 suppliers.
Trowsus/Sgert Ysgol School Trousers/ Skirt	<p>Trowsus du wedi eu teilwra neu sgert bletio wedi eu harchebu gan ein darparwyr lleol** er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac argaeledd drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Mae'r steil wedi ei ddewis drwy ymgynghoriad a'n disgyblion:</p> <p>Bechgyn – Trowsus 'Slimbridge';</p> <p>Merched – Trowsus Trimley / Sgert Ddu Bletio - 'Designer Pleated Skirt'.</p> <p>Disgwylir i'r sgert gael ei gwisgo at y pen-glin, neu'n hirach.</p> <p>Ni chaniateir trowsusau tynn, chinos, jeans neu debyg.</p> <p><i>**Caniateir shorts du wedi eu teilwra pan fydd y tywydd yn gynnes yn nhymor yr Haf.</i></p>		<p>The black tailored trousers or black pleated skirt 'must' be purchased from our local stockists** to ensure consistency and all year availability.</p> <p>The styles have been selected in consultation with pupils:</p> <p>Boys – 'Slimbridge' style;</p> <p>Girls - 'Trimley' style Trousers / 'Designer Pleated Skirt'.</p> <p>The skirt should be worn to the knee or longer.</p> <p>Jeans, chinos, leggings or tight trousers are not permitted.</p> <p><i>**Black tailored shorts will be permitted during the Summer Term.</i></p>
Esgidiau/Shoes	<p>Dylid gwisgo esgidiau du plaen a fflat - dim logo na lliw. Caniateir bŵts at y ffêr, ond dim uwch. Dim esgidiau ymarfer. Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cryf ar gyfer y diwrnod ysgol.</p> <p>Sanau gwyn/du neu deits du yn unig.</p>	<p>Shoes should be plain black, flat with black soles with no logos or colour. Boots up to the ankle are permitted but no higher.</p> <p><u>No trainers allowed.</u></p> <p>Shoes must be sturdy enough to support during the school day.</p> <p>Plain white/black socks or black tights only.</p>	
Ychwanegol Additional	<p>Caniateir un clust tlws ym mhob clust yn unig.</p> <p><u>Ni chaniateir tlysau yn y trwyn nag ewinedd ffug.</u></p> <p><u>Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol.</u></p> <p><u>Colur naturiol yn unig.</u></p>	<p>One stud earring per ear only is permitted.</p> <p><u>Facial piercings of any kind and false nails are not permitted.</u></p> <p><u>Un-natural hair colour is also not permitted.</u></p> <p><u>Natural looking make-up only.</u></p>	



Dyfeisiadau Digidol / Digital Devices

Diffiniad o ddyfais digidol eich hun - ffon symudol / tabled / offer sain / clustffonau / cyfrifiadur / gliniadur.

Byddwch yn dod a dyfais eich hun i'r ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad ac mae'r penderfyniad i ddod a dyfais i'r ysgol yn gyfrifoldeb i'r defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad, ynghyd â'r atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'r defnydd o'r ddyfais yn yr ysgol.

Blwyddyn 7 - 11

Ni ddylai dyfeisiadau gael ei defnyddio ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol (08:55 – 3:30) (mae hyn yn cynnwys amser egwyl a chinio) oni bai bod angen penodol mewn argyfwng neu rheswm penodol sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.

Blwyddyn 12 – 13

Ni ddylai dyfeisiadau gael ei defnyddio ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol (08:55 – 3:30) heblaw am yn Bloc y Chweched Dosbarth neu yn Ystafell waith y Chweched Dosbarth. Ymhob rhan arall o'r ysgol oni bai bod angen penodol mewn argyfwng sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.

Mae defnydd o ddyfeisiau tu allan i'r oriau hyn ar dir yr ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr.

Definition of own digital device - mobile phone / tablet / audio equipment / headsets / computer / laptop.

Devices are brought into the school entirely at the risk of the owner and the decision to bring the device in to the school lies with the user and their parents/carers as does the liability for any loss or damage resulting from the use of the device in school.

Year 7 – 11

Devices are not to be used at any time during the school day (08:55 – 3:30) (this includes break time and lunch time) unless explicitly required for an emergency or specific reason discussed before hand with a learner and their parents / carers.

Year 12 – 13

Devices are not to be used at any time during the school day (08:55 – 3:30) excepted for in the Sixth Form Block or the Sixth form Study room. In all other parts of the school they should only be used for an emergency reason discussed before hand with a student's and their parents / carers.

Devices used outside these hours on school grounds lies entirely at the risk of the owner.



YSGOL DYFFRYN CONWY

Ffordd Nebo
Llanrwst
Conwy
LL26 OSD

Rhif Ffôn / *Telephone*: 01492 642800

Rhif Ffacs / *Fax*: 01492 642801

Gwefan / *Website*: www.ysgoldyffrynconwy.org
E-bost / *eMail*: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

PENNAETH / HEAD

Mr Owain Gethin Davies

